

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG  
CYNGOR SIR GAR (2018-2033)  
ARCHWILIAD**

---

**RHESTR O FATERION A CWESTIYNAU**

Mater 1: Paratoi'r Cynllun a Fframwaith Strategol y CDLI diwygiedig

*Y Mater - A yw'r CDLI diwygiedig yn cydymffurfio â'r gyfraith, a oes cyfiawnhad dros Strategaeth y Cynllun ac a yw'n debygol o fod yn effeithiol o ran sicrhau y gellir diwallu anghenion datblygu Sir Gaerfyrddin mewn modd sy'n cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy?*

*Paratoi'r Cynllun*

1. **A yw'r CDLI diwygiedig wedi'i baratoi yn unol â gofynion:**
  - a) **Y Cytundeb Cyflawni cymeradwy, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?**
  - b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)? a**
  - c) **Deddf Cydraddoldeb (2010)?**

Ateb (a)

Ydy, mae'r CDLI wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni (CC), gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). Er i LIC gytuno ar y CC cychwynnol ar 28 Mehefin 2018, gwnaed nifer o ddiwygiadau iddo yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun. Roedd angen y diwygiadau hyn i adlewyrchu effeithiau Covid-19 ac, yn ddiweddarach, cyhoeddi Canllawiau CNC ar lefelau ffosffad o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd (ACAoedd) gwarchoddedig. Cyhoeddwyd diwygiadau ym mis Tachwedd 2020, Awst 2022, Ionawr 2024.

Ateb (b)

Ydy, mae'r CDLI Diwygiedig yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), y saith nod llesiant cenedlaethol cysylltiedig a ddilynodd, yn ogystal â'r nodau llesiant lleol hynny a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, ac sydd wedi'u cynnwys yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Roedd hyrwyddo a chydnabod llesiant yn rhan o baratoadau'r Cynllun gan gynnwys drwy'r Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol (dogfen gyflwyno CSD68) a asesai'r graddau yr oedd amcanion strategol y Cynllun yn cyd-fynd â nodau llesiant lleol. Mae Atodiad 6 yr ail CDLI Adnewo Diwygiedig yn cysylltu pob polisi strategol ag amcan strategol a'r Nodau Llesiant Lleol a Chenedlaethol. Roedd ystyriaeth briodol i Nodau Llesiant Lleol ac Chenedlaethol wedi'i gwreiddio ymhellach

yn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig. Cyfeirir at Atodiad 2 yr ail CDLI Adneuo Diwygiedig.

Ateb (c)

Do, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn y camau perthnasol drwy gydol y broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig, gan gynnwys y Strategaeth a Ffeirir Cyn Adneuo, ac yn rhan o fersiwn Adneuo gyntaf y Cynllun. Mae'r camau priodol felly wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yng nghyswllt Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r Asesiad yn helpu i ddangos bod y Cyngor wedi rhoi sylw priodol i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol o dan y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Y mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg.

Yn rhan o'r gwaith o baratoi'r ail CDLI Adneuo Diwygiedig cafodd y gofynion yn gysylltiedig â pharatoi AEG eu hymgorffori yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ar y cyfan, rhagwelwyd na fyddai'r polisïau a arfarnwyd yn yr adroddiad presennol hwn yn debygol o gael unrhyw effaith niweidiol anghymesur ar nodweddion gwarchoddedig, er bod mesurau lliniaru penodol wedi'u hamlygu'n glir o fewn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Atodiad I).

**2. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol cadarn ac a yw holl 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' y Cynllun a'r holl 'ddewisiadau rhesymol amgen' wedi'u nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso?**

Do. Cynhaliwyd Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fel bo modd cynnal asesiad tryloyw a chyfannol o oblygiadau'r ail CDLI Adneuo Diwygiedig o ran cynaliadwyedd, ac fe'i cynhaliwyd mewn modd ailadroddus ac integredig drwy gydol y broses o greu'r cynllun. Yn unol â gofynion statudol amrywiol, mae'n cynnwys yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd ar y cyd â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEGym), ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), elfennau o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Nodau Llesiant Lleol a Chenedlaethol, ac ystyriaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, gan gynnwys Datganiad Ardal CNC a'r Ddyletswydd Adran 6.

Er bod y broses gyfan wedi'i chynnwys yn Adroddiad yr ACI (sy'n ymgorffori'r AC/Adroddiad Amgylcheddol yr AAS) i gefnogi'r ail CDLI Adneuo Diwygiedig, ym mhob cam o ddatblygiad y cynllun awgrymwyd mesurau i liniaru effeithiau negyddol a chynyddu effeithiau cadarnhaol hyd yr eithaf. Yn ogystal â hynny, mae fframwaith monitro cysylltiedig wedi cael ei gynnig fel bo modd cymryd camau priodol i unioni unrhyw effeithiau andwyol nad oedd modd eu rhagweld. Ar ben hynny, cafodd adendwm (yn ymgorffori newidiadau manwl) ei gyhoeddi'n ddiweddarach i sicrhau

cydymffurfiaeth weithdrefnol, i adlewyrchu sylwadau a gafwyd gan ymgynghoreion cyhoeddus a statudol, ac i ymateb i linell sylfaen economaidd-gymdeithasol newidiol. Yn gyffredinol, canfuwyd y byddai'r CDLI diwygiedig yn creu budd sylweddol o ran sicrhau datblygiad cynaliadwy o fewn y Sir.

**3. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cadarn? Lle mae 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' wedi'u nodi, a oes Asesiad Priodol digonol wedi'i gynnal?**

Do. Yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig, mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) wedi'i gynnal mewn modd ailadroddus, tryloyw ac integredig, yn rhan o'r broses o greu'r cynllun ers 2018. Mae'r holl gynigion a'r dyraniadau a gyflwynir yn y CDLI Diwygiedig wedi cael eu sgrinio o dan ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd, a rhoddwyd ystyriaeth briodol iddynt yn nhermau eu heffaith bosibl ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Er i'r Adroddiad ARhC gwreiddiol gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad i gefnogi'r CDLI Adneuo Diwygiedig, mae dau adendwm ychwanegol wedi cael eu hychwanegu ato ers hynny - gan adlewyrchu'r angen i sicrhau bod gweithdrefnau'n cydymffurfio â'r Rheoliadau, yn enwedig mewn perthynas â llygredd gorfaethu mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol, sy'n broblem sy'n dod i'r amlwg. Ystyriwyd mesurau lliniaru yn rhan o Asesiad Priodol cynhwysfawr, ac fe gafodd llawer o'r rhain eu hymwreiddio ym mholisiau'r CDLI Diwygiedig. Yng ngoleuni hyn llwyddodd yr ARhC i gasglu na fyddai'r CDLI Diwygiedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar hygrdedd unrhyw safle sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, boed hynny ar ei ben ei hun nac o'i gyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill.

**4. A yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn ystyried cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch lefelau ffosffad yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd?**

Ydy. Rhoddwyd ystyriaeth i '[Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws](#)' o fewn Adendwm yr ARhC (Fersiynau 1 a 2, y naill a'r llall) ac yn ddiweddarach yn 2il Adendwm yr ARhC a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 19 Chwefror 2024 (Fersiwn 3). Fodd bynnag, cafodd Fersiwn 4 y cyngor hwn ei chyhoeddi'n ddiweddarach ar 28 Mehefin 2024. Roedd y diweddariad hwn yn canolbwyntio ar newid oddi wrth lygredd 'ffosffad' a thuag at 'faetholion' - term a ddefnyddir yn yr achos hwn i ddisgrifio ffosfforws ac amonia, y naill a'r llall. Ac eithrio'r diwydiant hwn, ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r adran a oedd yn cynnwys cyngor ynghylch adolygu CDLlau.

Gan ddilyn yr egwyddor ragofalus, cynhaliwyd asesiad sgrinio o'r holl ddyraniadau wedi'u cynnwys yn y CDLI Diwygiedig, i bennu, fesul achos, a allai fod â'r potensial i effeithio ar ACA. Mae hyn yn dal i fod yn gyson â'r cyngor sgrinio a nodir yn fersiwn ddiweddaraf y canllawiau. Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd, ar gyfer y dyraniadau

hynny lle na ellid diystyru effaith sylweddol debygol, a lle na fodlonwyd y meini prawf a osodwyd gan Gorff Gwarchod Natur Priodol, cynhaliwyd asesiad dilynol priodol. Er bod y canllawiau sydd wedi'u diweddarau yn egluro rhai agweddau technegol yn gysylltiedig â cheisiadau unigol (dyluniad systemau carthffosiaeth preifat er enghraifft), ar lefel cynllun strategol ni ystyrir bod y canllawiau newydd yn tanseilio'r asesiad priodol sydd wedi'i gynnwys drwy holl becyn yr ARhC. Gan hyn, gellir parhau i ddibynnu ar y mesurau lliniaru, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hymgorffori yn y CDLI diwygiedig (polisi CCH4), i osgoi effeithiau andwyol ar hygrededd y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol.

Gan nodi'r cyfeiriad at fersiwn 4 o ganllawiau CNC a'r symudiad oddi wrth lygredd ffosffad tuag at faetholion, byddai'r CDLI Diwygiedig yn elwa ar fân ddiwygiadau i eiriad CCH4. O ganlyniad i hyn, awgrymir y dylid newid y polisi i adlewyrchu maetholion yn hytrach na ffosffadau er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r canllawiau hyn. Byddai unrhyw newid o'r fath yn rhan o unrhyw Newidiadau Materion yn Codi yn y dyfodol.

## **5. A yw'r Cynllun yn gyson â Chymru'r Dyfodol: y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?**

Ydy, mae'r CDLI Diwygiedig wedi'i baratoi gan gynnwys cyfeiriadau priodol i'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol a chanllawiau, ac ystyriaeth briodol o hynny, ac mae'n gyson ac yn cyd-fynd â'i gynnwys a'i ddarpariaethau.

Ystyrir bod y CDLI Diwygiedig yn cydymffurfio'n gyffredinol â Chymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040. Yn rhan o'u sylwadau ar yr ail Gynllun Adneuo, dywed Llywodraeth Cymru: 'Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (2018-2033) yn cydymffurfio'n gyffredinol â Chymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, fel y nodir ym mharagraffau 2.16 – 2.18 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).' Mae'r datganiad cydymffurfiaeth hwn 'yn seiliedig ar yr hyn a nodir ym Mholisi SP4 ar hyn o bryd, sef darpariaeth tai o 9,704 o gartrefi, Asesiad cefnogol o'r Effaith ar y Gymraeg a'r rhan fwyaf o'r twf hwn yn cael ei leoli yn yr aneddiadau Haen 1 a Haen 2.

Fodd bynnag, nodir bod cafeat i'r datganiad hwn yn gysylltiedig â materion a godwyd yn Atodiad 2 y llythyr sylwadau ynghylch mynd i'r afael ag anghysondebau sylfaenol yng nghyfanswm y ddarpariaeth tai, a chael dealltwriaeth o oblygiadau'r rheiny, ac nad oes modd rhoi barn gadarn ynghylch materion cydymffurfio.

Cyfeirir at y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol wedi'i ddiweddarau (Dogfen Gyflwyno CSD75) a'r Datganiad Sefyllfa - Twf Tai a Dosbarthu Gofodol (Dogfen Gyflwyno CSD64) sydd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu a mynd i'r afael â'r materion yn gysylltiedig â chydymffurfiaeth.

**6. A yw'r Cynllun wedi ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio?**

Mae'r CDLI Diwygiedig yn rhoi ystyriaeth lawn i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), y saith nod llesiant cenedlaethol cysylltiedig a ddilynodd, yn ogystal â'r nodau llesiant lleol hynny a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ac a oedd wedi'u cynnwys o fewn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027. Roedd hyrwyddo a chydabod llesiant yn rhan o baratodau'r Cynllun gan gynnwys drwy'r Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol (dogfen gyflwyno CSD68) a asesai'r graddau yr oedd amcanion strategol y Cynllun yn cyd-fynd â nodau llesiant lleol. Mae Atodiad 6 yr ail CDLI Adneuo Diwygiedig yn cysylltu pob polisi strategol ag amcan strategol a'r Nodau Llesiant Lleol a Chenedlaethol. Roedd ystyriaeth briodol i Nodau Llesiant Lleol ac Chenedlaethol wedi'i gwreiddio ymhellach yn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig. Cyfeirir at Atodiad 2 yr ail CDLI Adneuo Diwygiedig. Mae'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' yn greiddiol i nodau'r Cynllun ac mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth lawn i hyn ac i'r ffyrdd o weithio a nodwyd wrth baratoi'r Cynllun.

**7. A oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu amgylchiadau lleol wedi bod ers i'r CDLI diwygiedig gael ei roi ar adnau? Os oes, beth yw goblygiadau'r newidiadau hyn ar gyfer y Cynllun? A oes angen mynd i'r afael â hwy drwy baratoi tystiolaeth newydd a/neu newidiadau i'r Cynllun a beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn?**

Oes. Bu newidiadau mewn polisi cenedlaethol, yn arbennig drwy gyhoeddi Argraffiad 12 Polisi Cynllunio Cymru, ac yn benodol y diwygiadau i Bennod 6 a newidiadau i bolisi a deddfwriaeth ynghylch ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Cyfeirir at ymateb y Cyngor i Gwestiynau Cychwynnol yr Arolygydd ac i'r datganiadau o'r Sesiynau Gwrandawriad.

O ran y goblygiadau i'r Cynllun, nodir y rhain yn y datganiadau ac yn ymatebion y Cyngor, gyda nifer o'r newidiadau'n ofynnol i sicrhau cysondeb â pholisi cynllunio cenedlaethol.

Bydd unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol fel rhan o'r archwiliad i adlewyrchu darpariaethau Argraffiad 12 Polisi Cynllunio Cymru, ac yn benodol Pennod 6, wedi'u nodi fel newidiadau materion sy'n codi.

## *Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth*

### **8. A yw Gweledigaeth y Cynllun yn ddigon uchelgeisiol a phenodol yn lleol i ffurfio'r sail ar gyfer cynllunio hyd at 2033? Sut byddant yn cael eu darparu?**

Mae gan y CDLI Weledigaeth ystyrllon a chyflawnadwy i fynd i'r afael â'r materion a'r amcanion a amlygir yn y Cynllun. Mae'r Weledigaeth 'Un Sir Gaerfyrddin' yn cyfleu'r math o le y mae'r Sir yn anelu ato ac mae wedi'i nodi'n glir ym Mhennod 6 y CDLI Adneuo. Mae'r Weledigaeth yn berthnasol yn ofodol ac ystyried bod rôl y 3 prif ganolfan, y cymunedau lleol a'r ardaloedd gwledig a'r ardaloedd o dir agored wedi'i chyfleu i fodloni nodweddion unigryw lleol ac anghenion amrywiol cymunedau.

Mae'r Weledigaeth hefyd yn cynnwys mynegiant clir o bwysigrwydd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wrth gyflawni'r uchelgeisiau adfywio ar gyfer y Sir a'r rhanbarth. Mae hyn yn ei dro yn adlewyrchu ac yn cysylltu â'r uchelgeisiau cenedlaethol a osodwyd drwy Cymru'r Dyfodol, yn benodol o ran dynodi Ardal Dwf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, yn ogystal â dynodi Caerfyrddin yn ardal dwf ranbarthol. Rhoddir ystyriaeth felly i gynnwys Polisi Strategol SP6: Safleoedd Strategol a dynodi'r Egin a Phentre Awel yn safleoedd strategol.

Mae gweledigaeth y CDLI Diwygiedig yn ymgorffori'n uniongyrchol y weledigaeth a nodir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor. Er nad oes gweledigaeth i'w thynnu'n uniongyrchol o Gynllun Llesiant Sir Gâr, mae gweledigaeth y CDLI Diwygiedig yn adlewyrchu ei bedwar amcan llesiant, sef (1) Arferion Iach (2) Ymyrraeth Gynnar (3) Cysylltiadau Cadarn a (4) Pobl a Lleoedd Llewyrchus.

Ystyrir felly fod Gweledigaeth y CDLI Diwygiedig arfaethedig yn briodol ac yn gydnaws â sicrhau datblygu cynaliadwy. Dylid cyfeirio at Bennod 6 y Strategaeth a Ffeifir Cyn Adneuo (Dogfen Gyflwyno CSD2).

Mae'r amcanion strategol yn datgan amod y mae'r Awdurdod am ei greu, ac yn cynrychioli bwriadau bras y bwriedir i'r polisïau a'r cynigion manylach eu cyflawni ymhen amser. Mae'r Amcanion Strategol wedi'u nodi'n glir ym Mhennod 7 yr 2il CDLI Adneuo.

### **9. A yw amcanion y Cynllun yn rhai CAMPUS ac yn gallu cyflawni'r Weledigaeth a nodwyd?**

Ydynt. Cyfeirir yn benodol at y Papur Pwnc: Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (Dogfen Gyflwyno CSD68). Mae'r papur hwn yn adolygu Amcanion Strategol y Cynllun yng nghyd-destun y materion ac yn cadarnhau eu bod hefyd yn G(C)yraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol ond Synhwyrol (CAMPUS). Cyfeirir at gydnawsedd yr Amcanion Strategol ag amcanion yr ACI.

Ystyrir bod Amcanion Strategol y Cynllun yn:

**Cyraeddadwy** – Mae'r Amcanion Strategol wedi'u diffinio i adlewyrchu materion allweddol a nodwyd, yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol ac yn sicrhau cydbwysedd

priodol â'r amcanion cynaliadwyedd. Maent yn drawsbynciol ac yn cyfeirio at nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Llesiant Sir Gâr.

**Amserol** – Mae'r fframwaith monitro fel y'i nodir yn y CDLI Diwygiedig yn caniatáu asesiad parhaus i ganfod a yw cyflawniad y Cynllun a'r amcanion strategol tanategol yn parhau i fod yn gynrychioliadol. Mae hyn yng ngoleuni'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol cyffredinol - gan nodi bod newidiadau cyd-destunol yn digwydd drwy gydol y broses o baratoi a gweithredu'r cynllun. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn Adroddiad Monitro Blynnyddol a fydd yn rhoi cyfle i'r Cyngor asesu'r polisiau a'r darpariaethau yn erbyn yr wybodaeth gyd-destunol ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys newidiadau i bolisi cenedlaethol, strategaethau lleol ac ati.

**Mesuradwy** – Mae'r CDLI Diwygiedig yn cynnwys fframwaith monitro a gweithredu a fydd yn caniatáu asesiad parhaus o lwyddiant neu fethiant i weithredu polisiau a darpariaethau'r cynllun. O ran hyn, dylid nodi bod y polisiau a'r darpariaethau'n llifo o'r materion a thrwy'r Amcanion Strategol. Mae'r amcanion yn rhan o'r sail ar gyfer monitro gweithrediad y Cynllun. Mae hyn wedi galluogi creu cyfres o dargedau a dangosyddion o fewn y fframwaith monitro, i sicrhau bod modd olrhain a mesur gweithrediad y Cynllun.

**Penodol** – Fe'u hystyrir yn benodol eu natur, ac maent wedi'u dylunio'n seiliedig ar y materion a nodwyd, gan gynnwys materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol, ac mae'r Amcanion Strategol wedi'u datblygu'n unol hynny. Maent wedi cael eu llywio gan broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd, gan roi sylw arbennig i'r agendâu Llesiant a Chynaliadwyedd. O'r herwydd, mae'r Amcanion Strategol yn creu fframwaith ar gyfer gweithredu dulliau o ymdrin â'r materion yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun a'r broses AC ac ACI.

**Uchelgeisiol ond Synhwyrol** – Mae asesiad a phroffion cydweddoldeb wedi'u cynnal ar yr Amcanion Strategol, a dangoswyd eu bod yn gyson a bod modd eu gweithredu. Maent hefyd wedi cael eu hailadrodd drwy'r broses AC ac ACI.

**a) A ddylai amcanion strategol S02, SO4 a SO11 gynnwys cyfeiriad at dai?**

Na ddylent. Cafodd yr amcanion strategol eu llunio, ac fe'u hystyrir yn briodol gyda chyfeiriad penodol at SO10, sy'n adlewyrchu rôl a phwysigrwydd tai fel mater ac amcan dilynol wrth greu'r Cynllun.

Fel y nodir yn y Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol (Dogfen Gyflwyno CSD68) roedd yr Amcanion Strategol yn deillio o gynnwys Gynllun Llesiant Sir Gâr ac yn gyfrwng i integreiddio'n strategol gan roi sylw clir i Gynlluniau a Strategaethau eraill y Cyngor. Fodd bynnag, yn rhan o'r gwaith o'u llunio, a thrwy'r

broes baratoi cyn adneuo, ystyriwyd y byddai'n well defnyddio'r amcanion a nodwyd yn y cynllun llesiant i lywio'r amcanion strategol. Cyfeirir at Atodiad 1 y Papur Pwnc (Dogfen Gyflwyno CSD68) lle ceir Asesiad Cydweddoldeb yn erbyn yr 15 amcan llesiant a geir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar y pryd (2019) ac yn Atodiad 2 sy'n croesgyfeirio'r Amcanion Strategol i weld a ydynt yn cydweddu â'i gilydd. Ymgynghorwyd ar yr Amcanion Strategol drafft wrth gyhoeddi'r Strategaeth Ddrafft a Ffeirir ym mis Rhagfyr 2018 ond hefyd yn rhan o'r CDLI Adneuo Diwygiedig cyntaf a'r ail CDLI Adneuo Diwygiedig. Nodir hefyd fod yr Amcanion Strategol wedi bod yn elfen bwysig yng nghynnwys arfarniad cynaliadwyedd blaenorol y Cynllun, a hefyd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Dogfennau Cyflwyno CSD16-20).

Ystyrir ymhellach y byddai cynnwys tai ar wahân i ddefnyddiau tir eraill o bosibl yn cyfyngu ar eu ffocws ac yn newid byrdwn yr amcanion a'r ystyr sy'n sail iddynt. Byddai hefyd yn tanseilio'r prosesau asesu heb fod angen hynny, ac yn golygu bod angen cynnal ailasesiadau pellach yn gysylltiedig â sylfaen dystiolaeth y Cynllun.

#### **10. A yw Strategaeth Ofodol y Cynllun yn cynrychioli dull priodol o gyflawni, rheoli a dosbarthu twf dros gyfnod y Cynllun?**

Ydy. Mae'r strategaeth ofodol a ffeirir (Strategaeth Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy) yn ceisio cadw dull gweithredu sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau, gan ganoli'r twf i fodloni anghenion ein cymunedau. Mae hefyd yn cydnabod yr amrywiaeth a geir o fewn y Sir, ac yn nodi strategaeth ofodol a strategaeth twf glir i wireddu uchelgeisiau corfforaethol a strategol y Cyngor. Mae Polisi SP1 yn pennu lefel y twf yn y dyfodol, a'i brif nodau yw darparu cartrefi newydd mewn modd addas, gan ymateb i amcanion y Cyngor, fel y rhaglenni tai fforddiadwy a bodloni anghenion y gymuned ac ateb y galw o fewn y farchnad. Mae'r Polisi hefyd yn archwilio'r berthynas rhwng tai newydd a chreu tir cyflogaeth newydd fel bo modd cael gweithlu mwy sefydledig, i gydbwysu'r demograffeg oedran gwaith, trechu'r cyfraddau allfudo a lleihau'r niferoedd sy'n allgymudo.

#### **a) Sut mae'r Strategaeth Ofodol wedi'i llunio ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?**

Mae'r Strategaeth Ofodol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn cynnwys llunio ac asesu 6 opsiwn strategol. Mae'r opsiynau hyn, a'r broses o ddewis yr opsiwn a ffeirir, wedi'u nodi yn y CDLI Diwygiedig ac yn cynrychioli elfen bwysig o'r broses o greu'r Cynllun, gan gynnwys yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'i Asesiad Amgylcheddol Strategol. Cyfeirir yn benodol at y Papur Pwnc Opsiwn Gofodol (dogfen gyflwyno CSD69) sy'n manylu ar y broses o lunio a datblygu'r opsiynau, ac o ddewis opsiwn a ffeirir, gan gynnwys rôl rhanddeiliaid yn y broses honno.

Roedd ystyried opsiynau strategol yn rhan bwysig o'r broses o baratoi'r CDLI a gwnaed gwaith ymgysylltu ar yr opsiynau hynny i asesu a gwerthuso pa mor briodol yr oeddent,



gyda golwg ar sefydlu neu ddatblygu opsiwn a ffefrir. Roedd eu cynnwys yn adlewyrchu'r angen i roi sylw i ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol, a strategaethau lleol a rhanbarthol wrth gydnabod y nodweddion, yr asedau a materion penodol sy'n gyffredin yn Sir Gaerfyrddin.

Cyfeirir at yr opsiwn twf strategol a ystyrir yn briodol ar gyfer y Sir a cheir tystiolaeth ohono yn y Papur Pwnc Opsiwn Gofodol (dogfen gyflwyno CSD69). Cyfeirir hefyd at y Papurau Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (dogfen gyflwyno CSD74 a CSD75) a'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd (dogfen gyflwyno CSD34), sydd gyda'i gilydd wedi caniatáu ystyried asesiad o opsiynau twf amgen rhesymol, gydag opsiwn gofodol a ffefrir yn cael ei gyflwyno fel yr opsiwn mwyaf priodol, a'r opsiwn mwyaf cynaliadwy er mwyn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI Diwygiedig.

**b) Beth yw prif elfennau'r Strategaeth Ofodol a sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd?**

Mae'r CDLI Diwygiedig yn cydnabod yr amrywiaeth a geir o fewn y Sir a'r angen i adlewyrchu hyn yn ei ymagwedd strategol. Mae'r Strategaeth Ofodol yn nodi hierarchaeth aneddiadau ond yn ei gosod o fewn fframwaith aneddiadau a rennir o dan chwe chlwstwr. Bydd y clystyrau hyn, a dosbarthiad y twf, yn canolbwyntio ar egwyddorion cynaliadwy, ond hefyd yn cydnabod rôl, swyddogaeth a chyfraniad perthyn pob anheddiad o fewn ei glwstwr. Bydd twf yn cael ei ddosbarthu'n unol â hynny i ganolfannau a nodir, tra nodir hefyd rôl aneddiadau llai yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau twf lleol a chynaliadwy.

Mae'r ardaloedd twf strategol yn adlewyrchu'r ffurf drefol gyfredol, ar ffurf Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin gyda'u rhinweddau cynaliadwyedd perthynol a'r sbardunau economaidd cryf o ran y galw o fewn y farchnad ac o ran cyflawni. Mae'r tair ardal dwf hyn wedi'u dynodi'n brif ganolfannau ac er y byddant yn derbyn cyfran briodol o'r twf a ragwelir, bydd yr ymagwedd at ddosbarthu twf yn gytbwys.

Bydd ardaloedd eraill yn cynnwys ffocws ar Dwf Lleol ac Arallgyfeirio. Yr ardaloedd hyn yw'r rhai lle bydd twf yn adlewyrchu'r gymuned, gyda dealltwriaeth o'r disgwyliadau ehangach hynny i gyflawni.

Bydd safleoedd wedi'u dyrannu a defnydd o bolisiâu hefyd yn creu fframwaith ar gyfer darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a chreu swyddi. Bydd y fframwaith hwn yn ceisio cynnig dull cadarnhaol er mwyn helpu'r ardaloedd hyn i wireddu eu potensial llawn ac adeiladu ar y cyfleoedd yn holl gymunedau Sir Gaerfyrddin.

**c) A yw'r Strategaeth yn cynrychioli dull cynaliadwy o ran cynllunio dros gyfnod y Cynllun? A yw'n cysylltu trafndiaeth, cyflogaeth a thwf preswyl mewn modd effeithiol?**

Mae'r Cynllun yn ceisio dosbarthu twf a datblygiad yn ofodol ar draws y Sir, gydag aneddiadau wedi'u dyrannu i un o 6 chlwstwr o fewn yr hierarchaeth. Mae'r dull sy'n seiliedig ar glwstwr yn hyblyg wrth ddosrannu twf newydd ac yn osgoi unrhyw dybiaeth bod yn rhaid i bob anheddiad ym mhob haen gyfrannu at dwf. Yn lle hynny, mae'n cyfeirio'r mwyafrif o'r twf i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Rhoddwyd sylw hefyd i aneddiadau trawsffiniol, a'u heffaith ar rôl a swyddogaeth aneddiadau ar ffiniau Sir Gaerfyrddin.

Comisiynodd yr Awdurdod ymgynghorwyr i gynnal asesiad cynhwysfawr o'r opsiynau tai a thwf economaidd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, sy'n adeiladu ar astudiaethau presennol ac yn ceisio darparu'r dystiolaeth ddiweddaraf i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (dogfen gyflwyno CSD34). Mae'r asesiad wedi cael ei gynnal yn unol â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru, sy'n pwysleisio pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng twf tai a swyddi, i leihau'r angen i gymudo.

**ch) A yw'r Strategaeth Ofodol yn gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac yn mabwysiadu'r dull dilyniannol o ran rhyddhau tir fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru?**

Mae'r strategaeth yn ceisio cyfeirio datblygiad i'r Prif Ganolfannau a'r hen gadarnleoedd diwydiannol yn y sir lle mae bydd tir a ddatblygwyd o'r blaen fel arfer yn gyffredin, oherwydd natur a hanes diwydiannol blaenorol y cadarnleoedd hynny. Fodd bynnag, ac ystyried natur wledig rhan sylweddol o'r Sir, mae tir a ddatblygwyd o'r blaen yn brin.

Mae'r ymrwymiad parhaus tuag at dir a ddatblygwyd o'r blaen o fewn yr ardaloedd hyn yn cynrychioli elfen o barhau â'r CDLI presennol. Wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig, ystyriwyd dyrannu defnyddiau tir amrywiol ar dir a ddatblygwyd o'r blaen o fewn y fethodoleg asesu safleoedd, ac yn y meini prawf a osodwyd ar ddechrau'r broses o ddewis safleoedd. Mae'r Strategaeth wedi cadw'n llym at y drefn chwilio am safleoedd yn unol â PCC. Ystyriwyd tir a ddatblygwyd o'r blaen ac/neu safleoedd a danddefnyddir o fewn aneddiadau presennol i ddechrau, ac yna safleoedd addas a chynaliadwy ar gyrion yr Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Gwasanaeth.

Cyfeirir at amryw o safleoedd allweddol o fewn y Cynllun sydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys Doc y Gogledd, Llanelli (210 o anheddau), Pentre Awel, Llanelli (240 o anheddau), Tir yn Hen Iard Dinas, Cydweli (71 o anheddau), Glannau Harbwr Porth Tywyn (364 o anheddau), Ffos Las (159 o anheddau), Golwg y Gwendraeth (141 o anheddau), Glofa Betws (66 o anheddau), Gwaith Brics Emllyn (177 o anheddau).

Byddai datblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen yn anelu i leihau pwysau datblygu ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, gan gyfeirio at y Papur Pwnc Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (dogfen gyflwyno CSD79).

**d) A yw'r Strategaeth Ofodol a'r lefelau twf a ragwelir yn gyson â rhai awdurdodau cyfagos? beth yw'r prif faterion trawsffiniol a sut yr ymdriniwyd â hwy?**

Ydy. Cyfeirir at y Datganiad Sefyllfa mewn perthynas â Chydweithio Rhanbarthol (Dogfen Gyflwyno CSD67). Paratowyd y datganiad hwn mewn cydweithrediad â'r awdurdodau cynllunio lleol eraill ar draws y rhanbarth. Gan adlewyrchu ei statws drafft, bydd y datganiad hwn yn esblygu wrth i'r CDLlau diwygiedig perthynol gael eu datblygu. Mae'n ceisio rhoi trosolwg o faterion cynllunio strategol trawsffiniol ar gyfer rhanbarth de-orllewin Cymru, ac yn dangos sut mae'r CDLlau, wrth iddynt gael eu hadolygu, yn cael eu paratoi o ran dealltwriaeth gytunedig o'r materion a'r gofynion o fewn rhanbarth de-orllewin Cymru, fel y'u diffinnir yng Nghymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae hefyd yn amlinellu'r trefniadau i gydweithio o ran casglu tystiolaeth, yn nhermau llywio gwaith i baratoi'r CDLlau diwygiedig, ond hefyd y Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) sydd i'w paratoi o dan nawdd Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CC) De-orllewin Cymru.


**dd) A fydd y Strategaeth Ofodol yn cefnogi ardaloedd twf cenedlaethol a'r rhanbarth ehangach?**

Bydd. Mae'r Cynllun wedi cael ei baratoi gan roi sylw priodol i Gymru'r Dyfodol, a chan gynnwys cyfeiriadau amlwg at Bolisi 1 a Pholisi 28: Ardal Dwf Genedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli.

Mae Polisi 1 Cymru'r Dyfodol yn nodi 3 ardal dwf genedlaethol sy'n cynnwys Bae Abertawe a Llanelli, ac mae Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn ategu'r rhain. Nodir Caerfyrddin fel Ardal Dwf Rhanbarthol. Ymhellach i'r ardaloedd twf, mae Polisi 1 yn datgan y dylai datblygiad a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod ar raddfa briodol a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol. O ran hyn, mae strategaeth ofodol y Cynllun a'i ddisbarthiad twf yn cydnabod hierarchaeth glir o aneddiadau sy'n adlewyrchu cyfeiriad polisi yn genedlaethol, ac sy'n gydnaws â hynny ar draws y rhanbarth, gan adlewyrchu cymeriad ac anghenion Sir Gaerfyrddin a'i chymunedau ar yr un pryd.

Mewn perthynas â Pholisi 28 a'r Ardal Dwf Genedlaethol, nodir nad yw Cymru'r Dyfodol yn diffinio maint Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. O ganlyniad i hynny, i lywio gwaith yn y dyfodol yn gysylltiedig â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol a'r CDLlau newydd/diwygiedig, paratôdd yr awdurdodau cynllunio lleol yn y rhanbarth Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (Dogfen Gyflwyno CSD40). Drwy hynny, mireiniwyd maint gofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol, fel y dangosir ar y map isod. Roedd hyn yn cynnwys Prif Ganolfannau

Llanelli a Rhydaman/Cross Hands yn ogystal â Chanolfan Wasanaeth Porth Tywyn fel y nodwyd o dan Bolisi SP3 y CDLI Diwygiedig. Mae ardal Caerfyrddin (a nodir fel canolfan dwf ranbarthol yng Nghymru'r Dyfodol,) hefyd wedi'i nodi fel Prif Ganolfan yn y CDLI Diwygiedig.



Dylid cyfeirio hefyd at yr ymateb i Gwestiynau Cychwynnol yr Arolygwyr a chwestiwn 5 uchod, yn ogystal â chynnwys y Datganiad Sefyllfa mewn perthynas â Chydweithio Rhanbarthol (CSD67).

e) **Beth yw pwrpas Polisi SP13? A yw'n darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad mewn cymunedau gwledig?**

Mae Polisi Strategol SP13 yn adlewyrchu'r flaenoriaeth strategol sy'n gysylltiedig ag ardaloedd a chymunedau gwledig y Sir a'u cyfraniad cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd at Sir Gaerfyrddin. Mae'n darparu fframwaith trosfwaol i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy mewn cymunedau gwledig, gan gydnabod pwysigrwydd gwarchod yr ardal ehangach o gefn gwlad agored.

Cyfeirir at baratodau'r Cynllun yng ngoleuni strategaethau a chynlluniau eraill, ac yn arbennig at ddogfen Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin a oedd yn deillio o'r gwaith yn gysylltiedig â Thasglu Gwledig y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio strategaeth

eang i adfywio cymunedau gwledig y Sir. Cymeradwywyd yr adroddiad terfynol yn y Cyngor Llawn ar 11 Medi 2019 ac roedd yn nodi cyfres o argymhellion. Mae cynnwys y polisi strategol yn adlewyrchu'r pwysigrwydd corfforaethol a gysylltir â'r Sir Gaerfyrddin wledig.

Wrth adlewyrchu'r angen i reoli a darparu ar gyfer datblygiad cynaliadwy o fewn ein cymunedau gwledig, ni fwriedir i'r polisi weithredu ar ei ben ei hun. Yn hytrach, dylid ei ddefnyddio ar y cyd â'r gyfres o bolisïau penodol yn y cynllun, gan gynnwys adran 'Arferion Iach' y fframwaith polisi, ymhlith eraill. I'r perwyl hwn, ceir polisïau sydd i'w cymhwyso i ardaloedd gwledig drwy'r holl gynllun a'i bolisïau.

### **11. A yw lefel y twf sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi SP1 yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?**

Cyfeirir at yr atebion manwl a nodir yn Sesiwn Gwrandawriad 2 (Tai) a Sesiwn Gwrandawriad 4 (Cyflogaeth).

#### **a) Beth yw pwrpas Polisi SG1? A yw gofynion y safleoedd dyranedig a restrir yn y polisi wedi'u mynegi'n glir?**

Pwrpas y polisi yw nodi'r safleoedd adfywio a defnydd cymysg yn y Cynllun er mwyn sicrhau eu bod yn cael statws priodol yn nhermau polisi cynllunio. Mae hefyd yn fodd i roi arweiniad pellach drwy'r CCA ac, o bosib, briffiau datblygu yn y dyfodol, i lywio datblygiad addas ar y safleoedd.

#### **b) A yw cynnwys safleoedd wrth gefn, sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi SG2, yn briodol ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Roedd cynnwys y polisi yn adlewyrchu uchelgais i ddarparu lleoliadau amgen addas ar gyfer datblygu pe na bai safleoedd o fewn y Cynllun yn cael eu cyflwyno yn y modd a ragwelwyd. Fodd bynnag, ystyrir mai'r ffordd orau o gyflawni hyn bellach fyddai drwy fonitro a gweithredu'r Cynllun. Gan hynny, byddai'n well ystyried y safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y polisi, neu yn wir safleoedd eraill a allai ddod i'r amlwg wedi hynny, yn rhan o unrhyw adolygiad o'r cynllun yn y dyfodol, os oes angen.

O ganlyniad i hynny, mae'r Cyngor yn cynnig dileu'r polisi a chael gwared ag unrhyw groesgyfeiriadau dilynol. Bydd y diwygiadau hyn wedi'u nodi yn y newidiadau materion sy'n codi.

**12. Sut mae'r Hierarchaeth Aneddiadau a Chlystyrau a gynhwysir ym Mholisi SP3 wedi'u diffinio? A ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?**

Gweler yr ateb i 12a isod.

**a) Beth yw diben yr Hierarchaeth Aneddiadau? A fydd yn arwain datblygiad newydd yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, ac a yw'n glir pa fathau a faint o ddatblygu, ac eithrio tai, fydd yn briodol ym mhob haen o'r hierarchaeth?**

Mae datblygiad hierarchaeth aneddiadau'r CDLI wedi deillio o ystyriaeth o'r opsiynau gofodol, ac yn unol â'r amcanion llesiant, cynnwys yr Adroddiad Adolygu (Dogfen Gyflwyno CSD1), a pholisi cenedlaethol ymhlith ystyriaethau eraill, a thrwy'r broses ymgysylltu, yn benodol drwy Fforymau Rhanddeiliaid Allweddol (Dogfennau Cyflwyno CSD223 a CSD225) Mae'r Opsiwn a Ffefrir - Strategaeth Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy - yn ceisio creu twf cytbwys sy'n rhoi'r prif sylw i fodloni anghenion ein cymunedau a chyflawni amcanion strategol ac adfywio y rhanbarth a'r Cyngor.

Ar ben hynny, mae'r Papur Pwnc Rôl a Swyddogaeth (Dogfen Gyflwyno CSD72) yn cefnogi creu'r hierarchaeth aneddiadau. Mae'r Papur Pwnc hwn yn rhoi cyflwyniad ar gyfansoddiad y boblogaeth ac aelwydydd; ac ar bwysigrwydd y CDLI Diwygiedig yn erbyn strategaethau Corfforaethol ac allanol eraill, sydd wedi galluogi'r Awdurdod Lleol i ddeall rôl a swyddogaeth yr aneddiadau hynny o fewn y sir. Mae'r Papur yn egluro ffurf a rôl haenau a chlystyrau ac yn rhoi cyfle i werthuso'r dystiolaeth sy'n bodoli yn gysylltiedig â'r hierarchaeth aneddiadau, a hefyd i ystyried ffactorau fel graddfa, capasiti, cyd-destun gofodol, mân wahanïaethau lleol a nodweddion aneddiadau. Mae maint a math y twf a ddosrennir i aneddiadau yn dibynnu ar eu rolau, eu swyddogaethau a'u safleoedd unigol o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y CDLI Diwygiedig yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r holl dwf tuag at ardaloedd sydd eisoes yn elwa ar seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau da, neu lle gellir darparu capasiti ychwanegol. Mae'r fethodoleg yn glir ac yn rhesymol.

**13. A yw gofynion Polisi SD1 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol? Ac a yw ffiniau diffiniedig yr aneddiadau yn ddigon hyblyg i ganiatáu i lefel y twf a ragwelir gael ei chyflawni?**

Ystyrir bod y defnydd o Derfynau Datblygu yn briodol i'r aneddiadau a restrir o dan SP3, a bod hynny'n gyson ag egwyddorion polisi cynllunio cenedlaethol drwy PCC a TAN6.

Mae'r Awdurdod o'r farn bod defnyddio terfynau datblygu yn cyfrannu at weithredu'r Cynllun a'i strategaeth ofodol yn effeithiol, drwy ddarlunio patrwm o aneddiadau cynaliadwy a dosbarthiad twf drwy holl ardal y cynllun o ganlyniad i hynny.

Mae'r terfynau datblygu wedi'u diffinio mewn modd sy'n galluogi lefel o dwf sy'n adlewyrchu safle'r aneddiadau priodol o fewn yr hierarchaeth fel y'i diffinnir ym Mholisi

SP3 yn yr 2il Gynllun Adneuo, ac mewn modd sy'n gyson â'r fethodoleg a nodir o fewn y Papur Pwnc (Dogfen Gyflwyno CSD73). O ran hyn, maent yn ceisio sicrhau bod digon o gyfleoedd am lefel gymesur o dwf o fewn yr anheddiad, gan gadw rheolaeth briodol ar unrhyw risg o orddatblygu. Maent hefyd yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran atal lefel anghymesur o dwf mewn ardaloedd gwledig sy'n groes i ddarpariaethau polisi cynllunio cenedlaethol, gan barchu amrywiaeth cymunedau ar draws ardal y Cynllun. Yn arbennig, mae maint y terfynau hefyd yn ceisio cyfyngu hyd yr eithaf ar ardaloedd o dir heb ei neilltuo, a fyddai'n arwain at ddatblygiadau mwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle bo'n glir nad ydynt yn rhan o ffurf drefol sefydledig, ac a fyddai'n arwain at ddatblygiadau ar raddfa y byddai angen dyraniad ar eu cyfer fel arfer.

Mae Polisi SD1 yn amlinellu rôl terfynau datblygu a sut y dylent weithredu. Ceir canllawiau pellach ar y defnydd ohonynt, a sut i'w cymhwyso, mewn Polisiâu eraill, y ceir cysylltiad annatod rhyngddynt a Pholisi SD1: Polisi HOM2 sy'n nodi'r aneddiadau hynny lle ystyriwyd bod terfynau'n briodol, a HOM3 sy'n berthnasol i ddull seiliedig ar feini prawf ar gyfer yr aneddiadau hynny o fewn haen 4, fel y'u diffinnir ym Mholisi SP3 yr 2il CDLI Adneuo Diwygiedig. Hefyd, yn ogystal â lefel y twf priodol a ganiateir drwy'r terfynau anheddiad a amlinellir, mae'r Cynllun yn cynnwys polisiâu clir ynghylch cynigion eithriadau, yn benodol yn gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chyflogaeth. Yn hyn o beth, dylid cyfeirio at bolisiâu AHOM2: Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy ac EME4: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Dyrannu.

Mae'r defnydd o Derfynau Datblygu a methodoleg sy'n sail i'w hamlinellu ac ar gyfer y defnydd ohonynt, wedi'u nodi yn y Papur Pwnc - Terfynau Datblygu (Dogfen Gyflwyno CSD73).

#### **14. A yw'r dull o ddewis y safle yn ddigon clir a thryloyw, ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?**

Roedd y Papur Methodoleg Asesu Safle (Dogfen Gyflwyno CSD101) yn nodi proses tri cham ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol, ac ystyriwyd pob safle a nodir yn y Tabl Asesu Safleoedd (Dogfen Gyflwyno CSD103) yn erbyn profforma manwl.

Roedd Cam 1 yn asesiad lefel uchel i nodi a oedd pob Safle Ymgeisiol yn gydnaws â lleoliad twf yn y dyfodol a gyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir. Ymgynghorwyd ar hyn yn rhan o'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.

Roedd Cam 2 yr asesiad safleoedd wedi'i rannu'n ddwy:

- Ceisiai Cam 2a nodi safleoedd a fyddai â chyfyngiadau sylfaenol na ellid eu goresgyn na'u lliniaru. Roedd y rhain yn cynnwys safleoedd sydd o fewn safleoedd a ddynodwyd oherwydd eu pwysigrwydd i gadwraeth natur, treftadaeth ddiwylliannol, neu mewn parthau perygl llifogydd TAN 15, neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y safleoedd hynny. Ni ddygwyd safleoedd o'r fath ymlaen i'r cam nesaf. Yn ogystal â hynny, cafodd safleoedd nad

ystyriwyd eu bod yn gallu cynnwys pump neu fwy o anheddau eu hidlo allan yn y cam hwn, ond fe'u hystyriwyd yn erbyn egwyddorion cynllunio cyffredinol yn rhan o'r Papur Pwnc Terfynau Datblygu (Dogfen Gyflwyno CSD73).

- Roedd Cam 2b yn asesiad manwl, safle-benodol, ac yn cynnwys dadansoddiad o gynaliadwyedd y safle, ei hyfywedd a'r tebygolrwydd y byddai'n cael ei ddatblygu dros oes y cynllun. Roedd y profforma hefyd yn ystyried dadansoddiad o fioamrywiaeth, priffyrdd, yr effaith ar y Gymraeg a chyflwr y tir ymhlith materion eraill.

Ar gyfer safleoedd a ddygwyd ymlaen fel dyraniadau neu i'w hystyried fel safleoedd amgen rhesymol, lluniwyd sylwebaeth AC/AAS fanwl i'w hasesu yn erbyn y Fframwaith ACI, a'u dwyn ymlaen wedyn i Gam 3.

Cafodd safleoedd na ddygwyd ymlaen yng Ngham 2b eu hasesu yn erbyn y Fframwaith ACI drwy'r profforma. Yng Ngham 3 wedyn aseswyd y safleoedd hynny a oedd wedi mynd rhagddynt drwy'r holl gamau blaenorol, ac a oedd i'w cynnwys yn 2il CDLI Adneuo y Cyngor. Yn y cam hwn, cynhaliwyd ARhC ar bob safle i sicrhau na fyddai'r Cynllun Adneuo yn cael unrhyw effaith sylweddol (ar ei ben ei hun, nac o'i gyfuno â ffactorau eraill) ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.

**a) A yw'r safleoedd dyranedig yn seiliedig ar fethodoleg asesu safle gadarn sy'n ystyried yr holl gyfyngiadau posibl?**

Mae asesiad y fethodoleg asesu safleoedd, ac yn sgil hwnnw, y profformâu safle manwl, yn amlygu'r holl gyfyngiadau posibl ar ddatblygu. Cyfeirir at yr ateb uchod o dan gwestiwn 14.

**b) A yw'r holl ofynion seilwaith wedi'u hystyried i sicrhau bod safleoedd dynodedig yn cael eu cyflawni'n amserol?**

Cafwyd ystyriaeth drylwyr o'r holl ofynion ar gyfer yr holl seilwaith ategol hanfodol wrth baratoi'r cynllun, gan eu gwerthuso yn rhan o dystiolaeth dechnegol ategol pob safle, a'u hymgorffori yn y dadansoddiad o'r llwybr cyflwyno tai i sicrhau bod yr holl safleoedd dyranedig yn cael eu darparu'n amserol. Mae'r Asesiad Seilwaith (Dogfen Gyflwyno CSD78) yn cynnig rhestr gynhwysfawr o'r holl seilwaith sydd ei angen ar gyfer safleoedd a nodwyd fel safleoedd allweddol (50+ annedd, neu safleoedd cyflogaeth 4ha+). Mae'n amlinellu gofynion polisi'r CDLI Diwygiedig y mae'n rhaid i'r safleoedd arfaethedig eu bodloni, ynghyd â'r seilwaith angenrheidiol i hwyluso'r datblygiad

Mae'r Asesiad Seilwaith yn elfen hollbwysig o sylfaen dystiolaeth y CDLI Diwygiedig. Mae'n manylu ar y gwaith seilwaith sydd ei angen i sicrhau bod y CDLI Diwygiedig yn gyflawnadwy ac yn ymarferol, ac mae'n nodi'r endidau sy'n gyfrifol am weithredu gwahanol fathau o seilwaith.



Mae'r tablau yn Atodiad 1 yr Asesiad Seilwaith yn rhoi dadansoddiad manwl o'r materion safle-benodol, y cyfyngiadau, y drefn gyflwyno, a'r mesurau lliniaru sydd eu hangen i ddarparu safleoedd allweddol, yn ogystal â disgrifiad byr o'r safle, gofynion seilwaith, gofynion polisi a rhwymedigaethau cynllunio.

**c) A yw'r holl ddyraniadau safle yn cyd-fynd â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol sy'n ymwneud â Pherygl Llifogydd?**

Mae'r asesiad o safleoedd wedi ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn cydymffurfio â chanllawiau polisi cenedlaethol. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd wedi llywio'r dewis o safleoedd a lefel y perygl llifogydd a ystyriwyd yn y Fethodoleg Asesu Safleoedd.

Gweler CSD226 Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer Safleoedd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig er mwyn cael asesiad o oblygiadau'r Mapiau Llifogydd o ran Cynllunio ar ddyraniadau arfaethedig y CDLI Diwygiedig. Ceir gwybodaeth ychwanegol yn Nogfennau Cyflwyno CSD227 ac CSD228. Darperir gwybodaeth bellach yn ymateb cychwynnol y Cyngor i gwestiynau cychwynnol yr Arolygydd.

**15. A yw'r tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) wedi'i ystyried drwy gydol y broses o lunio'r cynllun? Yn enwedig mewn perthynas â pharatoi'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA), y Strategaeth Ofodol a'r ddyraniadau safle?**

Yn rhan o'r gwaith i baratoi'r CDLI Diwygiedig, rhoddwyd ystyriaeth briodol i leoliad ac effaith bosibl y Cynllun ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, yn benodol drwy iteriadau Methodoleg Asesu Safleoedd y CDLI Diwygiedig. Dylid cyfeirio at y profformâu safle a gynhyrchwyd mewn perthynas â phob dyraniad safle, ac yn benodol C.21 sy'n gofyn y cwestiwn 'A yw'r safle'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd uchel (gradd 1, 2, 3a)?' gan lenwi pob profforma fel bo'n briodol.

Cyfeirir ymhellach at y Papur Pwnc ar y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Dogfen Gyflwyno CSD79) sy'n esbonio'r naratif a, lle bo'n briodol, y cyfiawnhad dros ddyrannu safleoedd lle gallai hynny effeithio ar y tir amaethyddol gorau ac amlbwrpas.

Dylid nodi bod y gofynion a nodir yn argraffiad diweddaraf PCC mewn perthynas ag ystyried y tir amaethyddol a mwyaf amlbwrpas, yn dyddio o'r cyfnod ar ôl paratoi'r strategaeth a ffefrir.

**a) A yw'r Cynllun yn cynnig datblygu'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas? Os felly, faint o dir ac ym mhle, ac a yw'r dull hwn yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy?**

Cyfeirir at y Papur Pwnc ar y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Dogfen Gyflwyno CSD79). Mae'r papur hwn yn cyflwyno tabl ar bob dyraniad lle bo Gradd 2 neu 3a wedi'i ddyrannu ar gyfer defnydd preswyl, defnydd cymysg neu ddefnydd cyflogaeth, gan amlygu canran y tir gorau a mwyaf amlbwrpas. Mae'r papur yn rhoi dadansoddiad o'r safleoedd hyn a'r cyfiawnhad dros eu cynnwys.

## **16. Sut y bydd y Cynllun yn cymhwyso'r egwyddorion o ran creu lleoedd cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi SP12?**

Mae Polisi Strategol SP12 yn darparu fframwaith polisi trosfwaol ar gyfer ystyried cynigion yn unol ag egwyddorion Creu Lleoedd a datblygu cynaliadwy. Mae'n cyflawni hyn drwy gyfres o feini prawf y disgwylir i gynigion datblygu gydymffurfio â hwy a chyflawni yn eu herbyn. Mae'r meini prawf yn adlewyrchu ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer nifer o'r gofynion polisi penodol a nodir yn y Cynllun. Yn hyn o beth, cefnogir SP12 yn benodol gan gyfres o bolisiâu sy'n canolbwyntio ar y thema 'creu lleoedd' sy'n ymhelaethu ymhellach ar ofynion y polisi, er nad yw'r SP12 yn gyfyngedig i hynny. Ategir y rhain gan Ganllawiau Cynllunio Atodol. Bydd y CCA hyn yn ystyried ystod o feysydd polisi a thematig, gan gynnwys creu lleoedd, seilwaith gwyrdd a glas, mannau agored mewn datblygiadau newydd a Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol.

Cyfeirir at Atodiad 3 yr 2il CDLI Adneuo Diwygiedig a'r Papur Safbwynt mewn perthynas â pharatoi CCA (dogfen gyflwyno CSD66).

### **a) A yw gofynion Polisi PSD1 a PSD3 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Ydynt. Mae PSD1 wedi'i fynegi'n glir ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, ar ôl ystyried cyhoeddiad Argraffiad 12 PCC, cynigir y diwygiad canlynol:

- Newid y geiriau 'amcanion cynaliadwyedd' a defnyddio '*egwyddorion creu lleoedd*' yn lle hynny yn llinell gyntaf y polisi, i sicrhau bod y polisi yn rhoi adlewyrchiad gwell o'r diffiniad ar dudalen 15 PCC.

Mewn perthynas â Pholisi PSD3, mae hyn hefyd wedi'i fynegi'n glir ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, ar ôl ystyried cyhoeddiad Argraffiad 12 PCC, cynigir y diwygiad canlynol:

- Dileu'r geiriau '*ansawdd, a chyflwr*' o Bwynt 1 ym Mholisi PSD3 - mae hyn yn rhoi adlewyrchiad gwell o ddarpariaethau paragraff 6.2.2 PCC.

Bwriedir i'r diwygiadau uchod sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi cynllunio cenedlaethol ar ffurf PCC. Bydd y diwygiadau hefyd wedi'u hesbonio ymhlith y newidiadau materion sy'n codi.

Cyfeirir at ymateb y Cyngor i Gwestiynau Cychwynnol yr Arolygwyr mewn perthynas â PSD3 a'r gofynion i baratoi Datganiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas fel sy'n ofynnol o dan y polisi cynllunio cenedlaethol (PCC paragraff 6.2.12).

**b) A yw gofynion Polisi PSD4 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Ydynt. Mae PSD4 yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol. Er ei bod yn werth nodi bod PCC Paragraff 6.4.42 yn argymhell cymhareb ofynnol i blannu o leiaf 3 coeden o fath a maint cydadferol tebyg am bob 1 a gollir, rydym yn parhau i ragweld mai yn y CCA ar Goed a Phlanhigion ar ddatblygiadau newydd y dylid esbonio ystyr cydadferol. Drwy hyn bydd modd cyfleu a chymhwysio ymagwedd fwy hyblyg ac ymatebol os bydd targedau yn newid yn y dyfodol.

Cyfeirir at Atodiad 3 y Cynllun mewn perthynas â'r graddfeydd amser ar gyfer llunio CCA. Sylwer y bydd hwn yn cael ei ddiweddarau yn rhan o newid materion sy'n codi yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau ar amserlen paratoi'r Cynllun.

**17. A yw gofynion Polisi SP2 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Wrth baratoi'r Cynllun, gan gynnwys y polisi hwn, rhoddwyd sylw priodol i Gymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 4: datblygiadau manwerthu a masnachol (2016) (TAN4). Yn unol â'r canllawiau a nodir yn TAN4, mae Astudiaeth Manwerthu wedi cael ei pharatoi i lywio'r polisi a'r hierarchaeth fanwerthu yn unol â'r canllawiau a nodir ym mhennod 4 y TAN. Mae'r polisi wedi ceisio rhoi arweiniad i helpu'r broses o benderfynu ynghylch cynigion o fewn canol trefi, gyda'r nod o ganiatáu datblygiadau sy'n cynnal neu'n creu canol trefi cynaliadwy a hyfyw sy'n cynyddu eu bywiogrwydd hyd yr eithaf. Mae polisïau cynllunio lleol blaenorol wedi canolbwyntio'n bennaf ar swyddogaeth manwerthu canol trefi, ond i gydnabod y newid mewn patrymau siopa ac yn rôl canol trefi, mae Polisi SP2 yn ceisio gwneud canol trefi mor fywiog ag sy'n bosibl drwy gynnwys ystod o ddefnyddiau priodol a chyflenwol oddi mewn iddynt.

**18. A yw Polisi INF1 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer sicrhau rhwymedigaethau cynllunio? Sut y bydd blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael eu rheoli?**

Mae Polisi INF1 yn rhoi arweiniad ar sicrhau rhwymedigaethau cynllunio mewn modd clir, cyson a chryno. Bydd CCA ar Rwymedigaethau Cynllunio yn rhoi arweiniad ychwanegol ac yn cael eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLI Diwygiedig.

Mewn achosion lle na ellir darparu rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer pob gofyniad a nodir, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn nodi pa gyfraniadau a ddylai gael blaenoriaeth yn unol â Pharagraff 11.190. Gwneir hyn fesul achos gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cydnabyddir bod diwygiadau a wnaed i Bennod 6 PCC yn ceisio rhoi'r flaenoriaeth i gydnerthedd bioamrywiaeth ac ecosystemau. Gellir ystyried y gofyniad hwn fesul achos, yn unol ag ystyriaethau a rhinweddau penodol pob safle cais cynllunio. Ystyrir felly nad oes angen diwygio Polisi INF1 i roi'r flaenoriaeth i fioamrywiaeth.

### **19. A yw Polisi SP8 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac a yw'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r Gymraeg a diwylliant Cymru?**

Ydy, mae'r polisi wedi'i ategu gan dystiolaeth gadarn fel y nodir yn nogfennau cyflwyno CSD24; CSD25; CSD80. Mae hefyd yn defnyddio'r data gorau sydd ar gael yn gysylltiedig â nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys data'r Cyfrifiad. Y nod yw darparu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth gredadwy, ac sy'n adlewyrchu cymeriad diwylliannol ac ieithyddol y sir.

Wrth baratoi'r Cynllun, gan gynnwys y polisi hwn, rhoddwyd sylw priodol i Gymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae hefyd yn gyson â Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.

Mae testun ategol y Polisi yn adlewyrchu'r data a oedd ar gael ar adeg ei gyhoeddi ac felly'n cyfeirio at ddata Cyfrifiad 2011. Cynigir y dylid newid paragraff 11.173 i adlewyrchu data Cyfrifiad 2021, i'r testun canlynol:

*Ystyrir Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 17.8% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg, ond y ffigur cyfatebol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw 39.9%. O gynnal dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ar draws y Sir, mae'r gyfran leiaf yn ward Tyisha lle mae 18.9% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, a'r gyfran fwyaf ym Mhontyberem lle mae 60.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac i raddau helaeth dyma pam yr ystyrir bod Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ieithyddol sensitif. Yn ogystal, mae data'r Cyfrifiad diweddaraf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir sy'n dangos pa mor agored i niwed yw'r iaith yn Sir Gaerfyrddin.*

#### **a) A yw canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn caniatáu twf yn y ddarpariaeth o ran datblygu tai a chyflogaeth sy'n fwy na'r lefelau a gynhwysir yn y Cynllun?**

Roedd yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg (AEGym), a gynhaliwyd yn 2022 a 2024, yn gwerthuso effaith debygol y CDLI diwygiedig ar y Gymraeg. Yn arbennig, asesai effaith

debygol y Cynllun arfaethedig yn erbyn cyfraniad posibl yr ardal o ran siaradwyr Cymraeg hyd at flwyddyn olaf y Cynllun, sef 2033. Mae'r cyfraniad hwn ei hun yn seiliedig ar dafliwybr Llywodraeth Cymru er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Roedd Rhan 2 o AEGym 2022 yn ymdrin yn benodol â'r gofyniad am Asesiad Effaith Lefel Uchel o'r Strategaethau Twf a Gofodol diwygiedig a fabwysiadwyd ar gyfer yr Ail CDLI Adneuo Diwygiedig. Ceir hyd i'r drafodaeth ar yr asesiad lefel uchel o effaith y Strategaeth Twf a Ffeirir ac opsiynau amgen rhesymol ar gydnherthedd y Gymraeg yn Rhan 2.5.

Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd, daeth yr Asesiad i'r casgliad bod mabwysiadu cyfraddau twf uwch yn y boblogaeth yn debygol o arwain at gyfraddau uwch o fudo net. Roedd y dadansoddiad o ffigurau mudo net 2018/19 yn awgrymu bod cyfran sylweddol o fewnfudo gros yn deillio o fewnlifoedd o awdurdodau cyfagos ac o fannau eraill yng Nghymru. O ganlyniad i hynny, casglwyd bod posibilrwydd realistig, dros oes y Cynllun, y gallai dros draean o deuluoedd sydd wedi mewn fudo gynnwys oedolyn sy'n siarad Cymraeg (gweler para. 43).

*Ym mhara. 54, mae'r Asesiad hefyd yn nodi'r drafodaeth ar y sgôr ACI "Mae posibilrwydd realistig i'r CDLI2 diwygiedig annog a gwireddu twf cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, mae graddfa'r twf cyffredinol mewn cartrefi a swyddi yn ddibynnol ar amcanestyniad 10 mlynedd y boblogaeth ar sail tueddiadau. Mae hyn yn rhagdybio lefelau diweddar o fudo net sy'n debygol o arwain at boblogaeth ag elfen uwch o grwpiau oedran hŷn, ac a fyddai felly'n lleihau dylanwad cyfran fwy o bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg. Felly, o ran Matrics Sgorio yr ACI, ein barn ni yw y byddai'n sgôr +/-."*

Casgliad cyffredinol yr AEGym yw y gallai mabwysiadu cyfraddau twf uwch, a chyfraddau datblygu tai a chyflogaeth cysylltiedig (yn ychwanegol at y Strategaeth Twf a Ffeirir), o bosib arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ond bod hynny'n debygol o leihau dwysedd y siaradwyr Cymraeg o fewn Ardal y Cynllun.

Fel y nodwyd yn glir yn yr ymateb i Gwestiwn 19, mae'r AEGym yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd, ac fe'i cynhaliwyd cyn i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi.

Cafodd yr AEGym ei ddiweddarau eto yng ngwanwyn 2024 i roi cyfrif am ddata Cyfrifiad 2021. Ar adeg yr Asesiad, nid oedd gallu ieithyddol y rhai a oedd wedi symud o'r tu allan i'r Sir yn ystod y deuddeg mis blaenorol hyd at fis Mawrth 2021 wedi'i gyhoeddi. Nid oedd hi felly'n bosib ffurfio casgliadau clir ynghylch effaith debygol mudo net ar y tafliwybr siaradwyr Cymraeg.

Roedd yr AEGym nid yn unig yn gwerthuso'r effaith a ragwelwyd yn sgil y CDLI diwygiedig, ond hefyd yn offeryn defnyddiol wrth gynhyrchu'r CDLI diwygiedig, ac fe

wnaed rhai addasiadau i'r Cynllun mewn ymateb i ganfyddiadau'r Asesiad hwnnw. Fodd bynnag, pwysleisir mai rôl yr AEGym yw asesu effaith y Cynllun a chefnogi'r broses o'i baratoi, ac nad yw'n sefydlu agenda'r CDLI diwygiedig o ran polisi.

**b) A yw gofynion Polisi WL1 yn cael eu mynegi'n glir ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol? A ddylai darpariaethau Polisi PSD9 mewn perthynas â'r Gymraeg gael eu cynnwys yn y polisi?**

Paratowyd y CDLI Diwygiedig, gan gynnwys Polisi WL1 yn unol â Chymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu creu i gefnogi gweithrediad Polisi WL1 a byddant yn cael eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLI Diwygiedig. Mae'r rhain ar ffurf drafft ar hyn o bryd. ond byddant yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol (gweler Eitem 8.1, Adroddiad 3 am CCA ddrafft [Agenda for Cyngor Sir on Dydd Mercher, 10fed Gorffennaf, 2024, 10.00 yb \(llyw.cymru\)](#)).

Mae testun ategol Polisi WL1 yn cyfeirio at Bolisi PSD9 ym mharagraff 11.183. Gellid cynnwys cyfeiriad ym Mholisi WL1 at Bolisi PSD9 pe bai hynny'n cael ei ystyried yn briodol. Fodd bynnag, gallai hynny ddyblygu'n ddiangen, ac ystyried mai dogfen i'w darllen yn ei chyfanrwydd yw'r Cynllun.

**20. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n darparu cyd-destun ar gyfer rheoli lefelau ffosffad yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd? A yw gofynion Polisi INF4 yn cael eu mynegi'n glir?**

Na ddylai. Mae'r CDLI Diwygiedig eisoes yn cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer ystyried sut i reoli lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol. I'r perwyl hwn, cyfeirir at bolisi CCH4: Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr. Fodd bynnag, yng ngoleuni cyhoeddi canllawiau diweddaraf CNC -Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd sy'n sensitif i faetholion, nodir y bydd angen diwygio CCH4 i adlewyrchu'r cyfeiriad at 'faetholion' yn hytrach na 'ffosffadau'. Bydd y diwygiad hwn yn cael ei gynnig fel rhan o newid materion sy'n codi i sicrhau digon o eglurder yn y dehongliad o ddatblygiadau y tu allan *i'r ddalgylchoedd hydrolegol a ddynodwyd ar gyfer ACAoedd afonol* ond sydd serch hynny'n draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff / Gorlif Storm Cyfun o fewn yr ACA.

Yn ogystal â hynny, er manylder, nid *"datblygiadau sy'n creu gollyngiadau dŵr gwastraff"* yw'r unig lwybr a all achosi niwed - yn enwedig lle gallai dŵr ffo gwasgaredig, er enghraifft, gynrychioli'r prif lwybr. Cynigir ymhellach y dylid diwygio geiriad y polisi i gynnwys pob llwybr (ee, dŵr gwastraff a dŵr ffo gwasgaredig). Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad yr ARhC ac yn rhoi adlewyrchiad gwell o ganllawiau CNC ar gyfer datblygiadau amaethyddol/garddwriaethol.

Argymhellai'r ARhC y gellid "diwygio geiriad y polisi ymhellach i gynnwys pob llwybr (ee, dŵr gwastraff a dŵr ffo wasgaredig)."

"INF5: Gellid lliniaru ymhellach ar Ddyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgyllchoedd y System Garthffosiaeth Gyhoeddus drwy gynnwys y cyfeiriad uniongyrchol canlynol yng ngeiriad y polisi: *'ni chaiff seilwaith o'r fath ond ei ganiatáu os gellir dangos na cheir unrhyw effaith andwyol ar hygreddd ACAoedd afonol sy'n sensitif i ffosfforws'*. Ar ben hynny, gallai geiriad y polisi hefyd geisio sicrhau bod y dyraniad yn ei gyfanrwydd yn defnyddio un system breifat, lle bo'n briodol, oherwydd gall nifer fawr o weithfeydd preifat achosi problemau amgylcheddol (er bod hyn wedi'i grybwyll eisoes o fewn y testun eglurhaol, gan mai cafeat i bolisi ydyw dylid ei ychwanegu at eiriad y polisi eu hun - yn unol ag Adran F.10.1.2 y Llawlyfr ARhC)."

Gwnaed yr argymhellion uchod er mwyn gwneud y cynllun yn fwy eglur, ac ni ystyriwyd eu bod yn faterion a oedd yn ymwneud â'i gadernid. Bydd y diwygiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn rhan o'r newidiadau i'r Cynllun yn sgil materion sy'n codi.

Mewn perthynas ag INF4 ystyrir bod y polisi'n cyfleu'r gofynion yn briodol, gan nodi bod y manylion wedi'u cynnwys yng nghynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Porth Tywyn - cyfeirir at ddogfen gyflwyno CSD88. Nodir presenoldeb y gofynion tynnu dŵr cydadferol a'r drefn chwilio o fewn y CCA, ac er nad yw'r awdurdod o'r farn fod angen manylu ar hyn yn y polisi, ni cheir unrhyw wrthwynebiad i gynnig newid o'r fath.

Bydd y CCA yn cael ei fabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLI Diwygiedig ac mae ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal arnynt eisoes. Nodir y bydd angen gwneud mân ddiwygiadau i sicrhau cysondeb ag agweddau ar y Cynllun mabwysiedig. Cyfeirir hefyd at ddatganiad sefyllfa'r CCA (Dogfen Gyflwyno CSD66).